
# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

Rhif 171 — CHWEFROR 1991


## Diwedd Dinas

(Tudalen 2)




IESU, Iesu, 'rwyt ti'n ddigon,
'Rwyt ti'n llawer gwell na'r byd;
Mwy trysorau sy'n dy enw,
Na thrysorau'r India i gyd;
Oll yn gyfan,
Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.

CYNNWYS


Colofn Shân ...... 3
Sêr ............ 5
Bwth Ruth ........ 5
Safbwynt ........... 8
Y Calendar ......... 2
Croesair ........... 15


YN RHAD AC AM DDIM

# Y CALENDAR

**CHWEFROR:**

**1:** Cymrodorion Caerdydd yn y Tabernacl: Dr Elwyn Hughes: "Ai methiant yw maetheg?"

**4:** Clwb Cinio – John Hefin.

**5:** Cymdeithas Minny Street: Ymweliad Cymdeithas Salem, Treganna.

**5:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: "Plant – Profiadau Oes": Mrs Mair Owen.

**8:** Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson Gerddorol: Mrs Eilonwy Jones.

**11:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Yr Haen Osôn: Dr Geraint Vaughan.

**11:** Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Cystadleuaeth CYD dan lywyddiaeth Morfudd Stone.

**12:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Rhaglen yr Ysgol Sul.

**13:** "Canmlwyddiant Dr Kate Roberts" darlithau Dr Harri Pritchard Jones, Clwb Ifor Bach.

**15:** Cylch Llyfryddol Caerdydd: "Un o gyfrolau Iolo Morgannwg": Yr Athro Ceri W Lewis.

**18:** Cymdeithas Carnhuanawc "Syr John Wynn O Wydr" Dr J. Gwynfor Jones, Clwb Ifor Bach.

**19:** Cymdeithas nos Fawrth y Tabernacl: Ymweld â Chapel Ebeneser.

**26:** Cymdeithas Minny Street: Cinio Gŵyl Ddewi: Gwesteion: Y Parchedig a Mrs Eifion Powell.

**27:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro: Dennis Francis.

**27:** Cymdeithas y Gadwyn Salem, Swper Dewi Sant, Hedding Richards.

**MAWRTH:**

**3:** "Dau ganmlwyddiant Marwolaeth John Wesley" gan A H Williams, Bethel, Rhiwbeina.

**4:** Clwb Cinio Dynion Caerdydd – Y Prifardd James Jones.

**6:** Merched y Wawr, Cangen Bro Radur: Cawl a Chân gyda doniau lleol.

**8:** Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl: Swper Gŵyl Ddewi: Prif Westai, Mrs Beryl Hall.

**8:** Cymrodorion Caerdydd. Cinio Gŵyl Ddewi yn Ffreutur Coleg y Brifysgol.

**8:** Cymry'r Eglwys Newydd – Swper Gŵyl Ddewi. Gŵr Gwadd: Gareth Pierce.

**11:** Merched y Wawr Cangen Caerdydd: Shân Emlyn.

**11:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Y Parchedig Gwilym Wyn Roberts a Mr Huw Davies. Sustem Data Gweledol.

**12:** Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl: Noson Ddrama yng ngofal Mrs Gwyneth Thomas.

**12:** Cymdeithas Minny St "Pe cawn y cyfle" yng ngofal Lynn Jones.

**15:** Cylch Llyfryddol Caerdydd 7.00pm yn festri'r Tabernacl. "Trysorau Llên", noson yng ngofal Robin Gwyndaf.

**18:** Cymdeithas Carnhuanawc yng Nghlwb Ifor Bach. "Hanes y Cymry yn yr Unol Daleithiau yn yr 19 Ganrif" Dr Bill Jones.

**18-20:** "Y Gelli Geirios" Theatr Sherman gan Tsechof.

**19:** Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl: Cyfarfod Blynyddol.

**27:** Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Dr Rowland Wyn.

# DIWEDD DINAS

**ERBYN HYN mae'n hysbys i bawb bod cyfres HTV ar gyfer S4C yn dirwyn i ben wedi cyfnod o bum mlynedd. Fe welwyd y bennod gyntaf ar Fedi 19, 1985.**

Epil i gyfres falenorol HTV COLEG yw DINAS a chroesodd cymeriadau drosodd o fywyd coleg i'r byd mawr yn ein prifddinas.

Nod DINAS oedd ceisio adlewyrchu'r bywyd Cymraeg a fodolai mewn hinsawdd di-Gymraeg. Dros y blynyddoedd bu mudo cyson o gefngwlad i ddwyrain Cymru ac yn arbennig i Gaerdydd. Am gyfnod sylweddol wedi'r ail ryfel byd roedd y bywyd Cymraeg ynghlwm â'r capeli Cymraeg, y Cymmrodorion, UCAC, yr Urdd a Thŷ'r Cymry. Os nad oeddech chi o fewn y cylchoedd hyn doeddech chi ddim yn rhan o ffrwd y diwylliant Cymraeg yn y brifddinas.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio daeth hi'n bosib i Gymry, ac yn arbennig y Cymry ifainc, i fwynhau bywyd Cymraeg heb o reidrwydd dywyllu drws capel na throthwy'r un o'r sefydliadau traddodiadol. Daeth y dafarn a'r clwb yn ganolfan lle y gallai'r ieuenctid arfer ac arddel eu hiaith heb orfod cario beichiau'r hen ddiwylliant. Daeth byd y cyfryngau'n gryf i'r amlwg, twf y Swyddfa Gymreig, chwyddiant sydyn yn y galw am gyfrifyddion a chyfreithwyr. Daeth Caerdydd yn dipyn o Fecca proffesiynol.

Gwelwyd twf aruthrol mewn addysg Gymreig a chlywyd math ar iaith frodorol newydd yn dod i'r wyneb. Deuai plant di-Gymraeg i dderbyn addysg Gymraeg ac roedd ansawdd eu hacenion a'u haith yn bur wahanol i iaith y mewnfudwyr a ddeuai o'r gogledd a'r gorllewin.

Dyma oedd y cefndir a geisiodd DINAS ei bortreadu – yr haen broffesiynol, twf system brodorion a aeth drwy felin addysg Gymraeg. Nid oes na chapel na chymdeithas ddiwylliedig na dosbarth nos i'w cael ar gyfyl y gyfres.

Bron na ellir dweud i hyn fod yn fwriadol er mwyn tanlinellu'r math newydd o Gymreictod dinesig, wrbanaidd.

A y cyfan cafodd gryn lwyddiant. Er i ni gymryd amser i ddod yn gyfarwydd â byd busnes yn Gymraeg, fe ddaeth y cynllwynio'n rhan o'r drefn. Cawsom flas ar soffistigeiddrwydd arwynebol drwy deulu ambrose a'r bywyd llai rhamantus, ond mwy annwyl y teulu Doyle. Cawsom wynebu problemau teulu un rhiant, ysgariad, anffyddlondeb, Hiv, methdaliad; ac eraill o agweddau ar y bywyd dinesig – yn wir ar fywyd lle bynnag y bo.

Cynnig dewr yw'r gyfres i godi'r llen ar y math o fywyd sy'n anathema i'r Cymry sefydliadol, parchus a thraddodiadol. Torrodd DINAS yn llwyr oddi wrth y cefndir 'gwledig' a phopeth sydd ymhlyg yn y gair hwnnw.

Wedi'r haf fe fydd yr agwedd real ar ein bywyd dinesig yn cael ei throsglwyddo i fyd yr ysbyty ond ni all lanw'r bwlch wedi DINAS.

Roedd cael dwy opera sebon mor wahanol eu cefndir i'w gilydd yn cyfrannu at ryw fath o gydbwysedd yn y darlun o'r Gymru gyfoes.

**Wynne Lloyd**


# CLWB IFOR BACH

11 Heol Womanby, Caerdydd. Ffôn: 232199

**CHWEFROR 15:**
JESS + CUTTUNES + DOM

**CHWEFROR 16:**
R.S. + PRY CLUSTIOG

**CHWEFROR 23:**
TYNAL TYWYLL

**MAWRTH 8:**
SIOE "DALIER SYLW" – 8.30

**MAWRTH 23:**
"DEIAL 999"
Sioe Bara Caws – 8.30 + BOB DELYN A'R EBILLION

# COLOFN SHÂN

**WEL WIR, bobol bach. Lle dechreuai 'dwch? Yn blygeiniol ar fore niwlog yn Llandaf ac wedi bod yn gwylio'r teledu, yn ysbeidiol drwy'r nos. Dyma godi, a meddwl nad allai amgyffred mawredd helynt yr hen fyd yma. Ond, bod yn rhaid i mi feddwl am 'Y Dinesydd'. Tasg fitw fach, cwbwl amherthnasol, mae'n debyg. Ond haws amgyffred â hi.**

Agor y llenni – niwl trwchus – fel sŵp pys – "Rwy'n edrych dros y bryniau pell . . .?!" Meddwl wedyn am y bryniau hynny sydd o dan fygythiad. Y mae fy naearyddiaeth mor niwlog a'r olygfa o ffenestr fy llofft. Ond cefndir a sibrydion o'n magwrfa yn dod i'r meddwl, cefndir Beiblaidd. Lle mae'r cythrwfwl yma? Onid enwau cyfarwydd ac oglau festri sy'n dod i'r meddwl? Yr hen fap hir melyn hwnnw. Onid yno yn rhywle, y mae, neu yr oedd Mesopotamia? Jeriwsalem? Pwy ŵyr hynt a helynt yr hen fyd yma erbyn yr ymddengys y golofn hon?

Cwestiwn arall, yr fy naifrwydd, sy'n dod i'r meddwl yw – beth yw pendraw cenedlaetholdeb? Yn rhagluniaethol ffodus, y mae cenedlaetholdeb Cymru yn bur ddiniwed a didrais – diolch fyth a hir y pery hynny. Ond â greddf a theimladau emosiynol cryf, rhaid i mi holi fy hun, mewn anwybodaeth llwyr, be sydd yn sbarduno Saddam Hussein? Rhaid, hyd yn oed i mi holi ai rhinwedd neu eithafiaeth yw cenedlaetholdeb? Hawdd, efallai yw i mi guddio y tu ôl i anwybodaeth a diffyg crebwyll.

A fyddai gan y Gorllewin unrhyw ddiddordeb neu gonsyrn am Kuwait ac



Iraq onibai am y olew? A oes y fath beth yr bodoli â rhyfel gyfiawn?

Rhaid imi gyfaddef wrth wrando ar y Prifweinidog neithiwr imi – eto – yn fy naifrwydd – ymdeimlo â didwylledd. Gwn yn iawn – a dyfynnu – John Roberts Williams – petai "Yr Hen Wyddeles" wedi dweud union yr un eiriau – y byddant wedi syrthio ar glust cwbwl fyddar.

Niwlog y tywydd, niwlog fy meddwl, a niwlog y dyfodol. Y mae rhywun yn teimlo mor annigonol a ddiniwed, ac wrth baratoi rhifyn Chwefror o'r Dinesydd yr unig ddyfyniad sy'n dod i'r meddwl yn

> Chwyth aeafwynt, fe y mynnot –
> Cryn fy ffenestr ar fy nôr,
> Plyg y deri fel mieri
> Dyno ddawns i longau'r môr . . .

Ai gwendid yw plygu i'r drefn? Yn reddfol, teimlaf hynny. Ond fe wn i hefyd, oni bai plygu, torri a syrthio i'r llawr wna unrhyw goeden.

### CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn yn ddwys â Sue Davies a'r plant, yn eu profedigaeth lem o golli gŵr a thad annwyl, a hynny trwy ddamwain erchyll. Y mae ein meddyliau efo chi.

### LLONGYFARCH

I Llinos a Gareth Charles ar enedigaeth Lowri Wyn. Y ddau deulu'n llawenhau ac Arfon y taid newydd yn siwr o fod yn englyna fel y coblyn.

## DINESYDD

## TRWY'R POST

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF.

ENW ..............................................................................................

CYFEIRIAD ......................................................................................

COD POST .......................................... DYDDIAD..................................

Amgaeaf siec am £5.00 i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# Pontio yw'r Neges

**Y MAE'R ardal fwyaf i gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol – sef Maesyfed a Brycheiniog yn Ne Powys – wedi dewis ei logo ar gyfer 1993.**

Dewiswyd y Logo o ganlyniad i gynigion a ofynnwyd gan bump o artistiaid lleol adnabyddus, a chafwyd cystadleuaeth dda a safonol iawn. Yr un a ddewiswyd oedd gwaith Mr Geoff Bradford, Athro Ymgynghorol mewn Celf, Dylunio a Thechnoleg gydag Awdurdod Addysg Powys. Yn enedigol o Lundain, astudiodd Mr Bradford gerflunio a dylunio cyn dysgu mewn ysgolion ac addysg bellach yng Nghanoldir Lloegr. Daeth i Gymru yn 1983, fel Pennaeth Adran yn Ysgol Uwchradd Cruchywel am chwe mlynedd cyn cychwyn yn ei swydd bresennol. Bydd ei waith fel cerflunydd yn ymddangos yn Oriel y 'Wyeside', Llanfair-ym-Muallt, yn y dyfodol agos.

Y mae'r Logo yn cyflwyno natur wledig yr ardal eang hon gyda'i golygfeydd hyfryd, bryniau Maesyfed, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Mynydd Du ac ati. Dengys hefyd Afon Gwy yn rhedeg rhwng Maesyfed a Brycheiniog, a'r bont, man cynnal yr Eisteddfod, sydd yn croesi o Lanelwedd i Lanfair-ym-Muallt ac yn uno'r ddau Ddosbarth. Mae'r symboliaeth hefyd yn uno pobl yr ardal yn yr ymdrech i lwyfannu'r Eisteddfod Genedlaethol – am y tro cyntaf yn yr ardal atyniadol hon, ac ar faes adnabyddus y Sioe Amaethyddol.

### LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Sian a Geraint Lewis ar ddyfodiad William bach, brawd i Sian y teulu'n hapus iawn.


COLEG
CERDD
A DRAMA
CYMRU
TAITH
CYMRAEG 1991
Y
LLYFFANTOD
gan ARISTOFFANES
CYFARWYDDWR –
ANNES GRUFFYDD
DYDD LLUN 4 CHWEFROR, 7.30pm
NEUADD OGWEN, BETHESDA
FFON: 0222-372175
DYDD MAWRTH 5 CHWEFROR, 7.30pm
STIWDIO DDRAMA, CAMPWS YR WYDDGRUG
FFON: 0222-372175
DYDD MERCHER 6 CHWEFROR, 7.30pm
THEATR FELINFACH, LLAMBED
FFON: 0570-470697
DYDD IAU 7 CHWEFROR, 7.30pm
WYESIDE ARTS CENTRE,
LLANFAIR-YM-MUALLT
FFON: 0982-552555
DYDD GWENER 8 CHWEFROR, 7.30pm
THEATR Y MWLDAN, ABERTEIFI
FFON: 0239-612687
DYDD SADWRN 9 CHWEFROR, 7.30pm
THEATR Y BUTE, CAERDYDD
FFON: 0222-372175
WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG CERDD A DRAMA CYMRU

# SÊR
## Y DINESYDD
*Eiry Palfrey*



### ARIES
Fe allai hwn fod yn gyfnod eitha ffodus i chi, ond mae'n rhaid i chi gymryd mantais o bob cyfle ddaw eich ffordd neu mi fydd i lwc yn pasio heibio ichi. Mae diwedd y mis yn gyfnod arbennig o dda pan fydd sawl hwrdd sengl yn cwrdd â gwrthrych ei serch.

### TAURUS
Mi fyddai'n ddoeth i chi godw'ch pen i lawer am rai wythnosau, dyw'r sêr ddim yn teimlo'n rhy garedig tuag atoch ar hyn o bryd. Ond mae'n bosib bod newidiadau mawr cynhyrfys yn yr arfaeth. Y cyfnod gorau i chi y mis hwn yw'r wythnos o'r 17eg i'r 23ain.

### GEMINI
O'r diwedd Gemini mae pethau'n dechrau symud. Mae'r planed Mawrth yn eich arwydd ar hyn o bryd a fe all eich helpu i symud mynyddoedd. Does dim os na fyddwch yn llawn ynni a brwdfrydedd at bob math o brosiectau, ceisiwch ganolbwyntio ar un neu ddau ohonynt yn drwyadl.

### CANCER
Mae pethau wedi bod eitha trwm i chi dros y misoedd diwetha 'ma, ond mi fyddan nhw'n ysgafnhau llawer ar ôl y 6ed o Chwefror, a fe fydd gennych chithau lawer mwy o egni i wynebu gweddill yr hirlwm. Mae diwedd y mis yn gyfnod lwcus.

### LEO
Mae lwc wedi bod o'ch ochr am rai misoedd nawr, ond serch hynny fe allai pethau fynd o chwith y mis hwn, mae'n bwysig eich bod yn talu sylw mawr i fanylion ar hyn o bryd a pheidio â throi eich cefn ar broblemau. Mi fydd pennod yn dod i ben yn eich bywyd ddiwedd y mis.

### VIRGO
Mi fydd y mis yn dechrau'n addawol iawn, ond ar ôl yr wythnos gynta mi gewch gyfnod eitha tawel tan yr 20fed, ac yno fe ddylai pob math o bethau da a diddorol syrthio i'ch rhan. Mi fyddwch yn llawn o syniadau creadigol a dyfeisgar bryd hynny.

### LIBRA
Cymerwch ofal y mis hwn i harddu eich hun, mynd ar y ddeiet hir-ddisgwyliedig honno, loncian neu drin eich gwallt, oherwydd erbyn diwedd y mis mae 'na bosibilrwydd y bydd serch yn curo ar eich drws a mi fyddwch yn cyfarfod â rhywun newydd a diddorol iawn!

### SCORPIO
Os cawsoch eich geni rhwng Tachwedd 12-15fed byddwch yn barod nawr am newidiadau mawr yn eich bywyd personol a'ch personoliaeth. Fyddwch chi byth yr un person eto. Fe ddylai'r 6ed-8fed o'r mis hwn fod yn gyfnod pan allai unrhywbeth ddigwydd – byddwch yn barod amdano!

### SAGITTARIUS
Rydych chi wedi bod yn gwneud gormod yn ddiweddar Sagittarius, a mae'n bryd i chi gymryd hoe fach neu fe fydd eich iechyd yn dioddef. Ydych chi'n yfed gormod? Ysmygu gormod? Bwyta gormod? Gwnewch ymdrech i newid y sefyllfa cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

### CAPRICORN
Mi fyddwch yn falch o glywed Capricorn fod pethau'n mynd i fod tipyn llai gwyllt a phrysur yn eich bywyd ar ôl y 5ed o Chwefror; byddwch yn teimlo bod baich mawr wedi codi o'ch ysgwyddau. Ond mae ambell i sioc a newid annisgwyl eto yn yr arfaeth. Byddwch yn barod amdano!

### AQUARIUS
Mae'r planed Sadwrn yn symud i'ch arwydd y mis hwn, i aros yno am dair blynedd. Dyma athro'r Sidydd sy'n mynd i ddysgu rhai o wersi bywyd i chi os nad ydych chi wedi eu dysgu eisoes. Fe allai pethau fod yn anodd, ond ar y llaw arall os ydych chi'n haeddu gwobr a chamnoliaeth fe'i cewch ar ei ganfed gan Sadwrn!

### PISCES
Mis bach tawel ac annifyr braidd fydd hi tan yr 16eg, ac yna mi fydd pob math o bethau da a lwcus yn digwydd i chi, oherwydd ar ôl y dyddiad hwnnw mi fydd y sêr yn gwenu'n hael iawn arnoch. Fe allai fod yn fis rhamantus, a mae'n eitha posib y byddwch ar eich ennill yn ariannol.

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? P'un ydy'r ysgol agosa at eich tŷ chi? Fuoch chi yno erioed? Ydach chi'n ysu am gael gwybod beth sy'n mynd ymlaen y tu ôl i ddrysau'r lle? – Wel mi rydwi – ag yn cael fy siomi yr ochr orau yn aml.

Yn ystod wythnos ola mis diwetha mi ges i gyfle i fynd i Ysgol Llansannan – sydd yn fwy nag ysgol – yn ganolfan i weithgareddai'r pentre a'r ardal. Mi rown i'n rhyfeddu at y rhaglen wythnasol oedd ar y wal yn un o'r coridorau – prin fod yr adeilad yn wag rhwng wyth y bore a deg o'r gloch y nos.

Y diwrnod y bûm i yno rown i'n mynd i gyfarfod Ann Hughes a'i dosbarth o dros ddwsin o genod oedd yn dod at ei gilydd am ddeg wythnos mewn tri thymor i ddysgu am grefft a dylunio hefo bonws o rai darlithoedd ar farchnata ac arddangos. Mae'r cwrs yn rhan o fenter ffraethog ac yn amlwg yn boblogaidd o ran bod yn esgus i gwarfod â'n gilydd yn ogystal â dysgu crefftrau newydd dros nos.

Meddyliwch – roedd rhai yn gwneud blodau silc i'w rhoi ar siwmperi neu siacedi. Roeddan nhw'n paentio'r silc i gychwyn, torri'r petalau a'r dail allan, rhoi weiren ynddyn nhw, eu gwnio ag yna eu haddurno. Roeddan nhw'n broffesiynol tu hwnt.

Roedd Anwen yn marcio allan batrwm Celtaidd ar ddefnydd roedd hi wedi ei baentio ag am wnio patrymau o lesiau a cotwm metal o fewn y patrwm.

Lluniau o flodau ar silc oedd gan eraill, neu wnio darlun o ffotograff. Yn y gorwel roedd murlun. Ella i'w hongian – ffrog fedydd, bib, capan ar esgidiau heb sôn am siôl a gobennŷdd i fatsio! Mae Ella yn gwerthu'r rhain – a dyna fydd y genod eraill yn ei wneud ddydd a ddaw pan fydd y grefft yn dod fel ail natur a posib marchnata gwaith cyfran o ansawdd da.

Edrychwch allan am gerdu – (heb neges ynddyn nhw) sydd wedi eu gwnio gan Ann Hughes – Ann ydi'r athrawes alluog sy'n llawn syniadau. Mae hi'n gwneud patrymau ar ddefnydd ag yna ddillad ohono, lluniau wedi eu gwnio – ag yn y blaen ag yn y blaen – ag mae hi'n Nain. Gwych te!

**Hwyl**

# HEL MEDDYLIAU

**PRYD FUOCH chi yn Neuadd y Ddinas ddiwetha? Nid yn gymaint i holi am y Dreth Gymunedol neu am iechyd yr Arglwydd Faer ond i edrych unwaith eto ar yr enwogion o farmor sydd ar y llawr cyntaf. Mae un ar ddeg ohony' nhw. Cofio? – Dewi Sant, Gerallt Gymro, Buddug, Dafydd ap Gwilym, Hywel Dda, Owain Glyndŵr, Harri Tudur, Llywelyn ein Llyw Olaf, yr Esgob William Morgan, Y Cadfridog Picton a Phantycelyn. Tîm da ond yn gymysgedd od.**

Ar yr un llawr mae darlun olew hardd o achlysur dadorchuddio'r llun gan neb llai na David Lloyd George a hynny ar Hyd 27, 1916 ar ganol y Rhyfel Byd Cyntaf a Ll.G yn Ysgrifennydd Rhyfel. Meddai'r plac oddi tano: "Presented to the Cardiff Corporation by the Right Honourable Lord Rhondda of Llanwern". Paentiwyd y darlun gan Margaret Lindsay Williams.

Gwnaed pob un o'r arwyr gan gerflunydd gwahanol ac un yn unig gan gerflunydd o Gymro, Syr W Goscombe John, brodor o Gaerdydd gyda llaw ac ef a wnaeth y cerflun o Dewi Sant. Saeson yw gweddill y cerflunwyr a Sais o'r enw L S Merrifield a luniodd Pantycelyn. Byddai cael hanes pob un yn ddiddorol pe bai ond i gael gwybod sut y comisiynwyd hwy ac a gafodd eu gwaith ryw effaith arnynt yn eu hagwedd tuag at Gymru.

Yn rhifyn Mawrth 1917 o'r *Welsh Outlook*, cylchgrawn pwysig yn ei ddydd, mae ysgrif ddychanol ddifyr yn Saesneg gan R G Perry – "The Eleven Worthies" – yn dychmygu pob un o'r un ar ddeg ar hanner nos noswaith y dadorchuddio yn dod oddi ar ei bedestal ac yn dechrau sgwrsio â'i gilydd. Cwestiwn cyntaf Llywelyn ein Llyw Olaf i Thomas Picton yw gofyn iddo pam y dewiswyd hwy yn arbennig ar gyfer y Neuadd. Cwestiwn da o gofio, er enghraifft, eiriau Wellington yn disgrifio Picton "*... a rough, foul-mouthed devil as ever lived*" (gweler *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*). Nid oherwydd ei gymeriad yn sicr y dewiswyd ef! "O" meddai Llywelyn "fe roddodd y Gorfforaeth enwau 1,293 o Gymry enwog mewn jar a dewis ohonynt bedwar canwr, pedwar chwareuwr pêl-droed a thri phaffiwr. Ond fe wrthwynebodd y Brifysgol y dewisiadau. Yna, ym mhresonoldeb Urdd y Graddedigion rhoddwyd mwgwd dros lygaid crwt bach a'i arwain at Y Geiriadur Bywgraffyddol Cymreig a gofyn iddo ddewis enwau ar antur". Dychymyg byw, direidus R G Berry oedd ar waith yma, wrth gwrs.

Buasai'n ddiddorol clywed sgwrs rhwng y tri chlerigwr – Dewi Sant, William Morgan a Phantycelyn neu sgwrs rhwng y tri milwr – Llywelyn, Buddug ac Owain Glyndŵr. Beth fuasai'n gyffredin wedyn rhwng Dafydd ap Gwilym a Phantycelyn?

Mae'r ysgrif yn gorffen mewn sgwrs fel hyn:

***Glyndŵr:*** "Pantycelyn, ganwr pur! Ni ofyn fy mhobl ddim mwy gennyt ond y fraint o gael canu dy emynau, yn nyddiau'r prawf a'r tristwch, yn oriau bwrlwm crefyddol. Cyfyd dy eiriau cartrefol allan o ddyfnder cof, a phan ddaw marwolaeth yn agos, fe'u cenir yng nghanol y dyffryn tywyll hwnnw. Fe roddwn fy nghleddyf am y gorfoledd o fod yn awdur yr un pennill 'Rwy'n edrych dros y bryniau pell ...'" (Mae'r cloc yn taro oriau'r wawr ac fe â'r gwŷr clodfawr yn ôl i'w lleoedd yn araf.)

***Dafydd:*** (yn drist) "Morfudd!"

***Gerallt:*** "Maenor Bŷr!"

***Pantycelyn:*** "Iesu, Iesu!"

Williams, felly, gaiff y gair ola gan R G Berry. Ond pa ddisgwyl arall gan weinidog yr Efengyl onide?

**HE**

# Cymry'r Eglwys Newydd

MAE'N DEBYG bod llawer o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' yn mwynhau rhaglenni teledu fydd yn ymwneud â byd natur, gan wylio arbenigwyr wrthi'n traethu'n ddiddorol ym fywyd gwyllt – ac yn gofidio'n arw, 'run fath â fi, ai gwir y si fod rhaglenni "Awyr Iach" ar ddiflannu o'r sgrîn fach. Mae trigolion Yr Eglwys Newydd yn ffodus bod arbenigwr yn byw yn eu plith sy'n ymddiddori'n fawr mewn bywyd gwyllt, gartref a thramor, ac sy'n barod iawn i rannu'i wybodaeth a'i frwdfrydedd â chyfeillion o bob oedran gan gynnwys darllenwyr 'Y Dinesydd': mae ganddo erthygl ar "Gamlas Morgannwg" yn rhifyn Ionawr eleni.

Yn ddiweddar cafodd aelodau Cymry'r Eglwys Newydd gyfle – nid am y tro cyntaf – i fwynhau noson yng nghwmni Ted Edwards mewn cyfarfod yn festri Bethel. Gyda chymorth sleidiau lliw deniadol iawn, soniodd am waith y Mudiad Gwarchod Adar a fu'n dathlu y llynedd ddauganmlwyddiant ei sefydlu. Prif fwriad yr arloeswyr cynnar oedd ceisio rhwystro'r rhai a fynnai ladd adar er mwyn addurno gwisgoedd a hetiau â'u plu – ac weithiau ag adar cyfain – cyn i'r Senedd ddeddfu i wahardd y fath arfer ffiaidd. Erbyn heddiw mae gan yr RSPB dros gant o warchodfeydd ym Mhrydain, sy'n darparu amgylchedd addas a phwrpasol ar gyfer amrywiol anghenion gwahanol fathau o adar.

Tu allan i'r gwarchodfeydd hyn mae peryglon mawr yn wynebu adar: rhai sy'n arfer nythu mewn gwrychoedd yn colli'u cynefin nythu wrth i'r gwychoedd gael eu chwalu, miliynau o adar yn cael eu saethu bob blwyddyn wrth ymfudo ar draws gwledydd y cyfandir; coedwigoedd pîn aeddfed yn cael eu cwympo'n gynfangwbl gan ddigartrefu adar sy wedi dygymod â nythu yn eu copäon.

Sonodd Ted am y difrod y gall codi morglawdd dros aber Afon Taf ei achosi i filoedd o adar y traethau sy'n arfer hel eu bwyd yn y mwd ffrwythlon sydd yno'n awr, ac yna symudodd ychydig i fyny'r cwm i sôn am y gwaith sydd wedi'i wneud i greu gwarchodfa natur yn Yr Eglwys Newydd, yn ardal rhan o'r gamlas a adeiladwyd rhwng 1770 a 1778 i gario nwyddau haearn i Gaerdydd o'r gweithfeydd ym Merthyr. Mae yno gyfle gwych i ymwelwyr â'r amgylchedd cymysg hwn weld yr hyn a wnaed yno'n barod i warchod bywyd gwyllt ac i adfer peirianwaith a fyddai'n gweithio gynt ar y gamlas, megis llifddor – Forest Lock – a phwnys dŵr Melingriffith. Gwahoddir cefnogwyr i'r gwaith pwysig hwn; mae manylion i'w cael trwy ffonio Caerdydd 610043.

Dyma gychwyn rhagorol i raglen ail hanner tymor Cymry'r Eglwys Newydd. Ganol Rhagfyr daeth rhan gynta'r tymor i ben â chyngerdd Nadolig ardderchog gan blant Ysgol Melin Griffidd – llu o blant yn perfformio'n lleisiol, yn adrodd ac yn canu, ac ar amrywiaeth o offerynnau llinynnol a phres. Diolch iddyn nhw am eu parodrwydd i roi noson ragorol i ni, i'r plant am eu gwaith arbennig ac i'w hyfforddwyr diwyd.

**DGJ**

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn ag Ann Cleaver a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a Nain annwyl. Y mae ymadawiad Glenys Cleaver i rai ohonom yn ddiwedd cyfnod. Coffa da gan llawer ohonom am "Y Cleaver Arms" yn Marlborough Road yn y chwedegau.

"Mae nghyfei llion adre'n myned..."

Melys yr atgofion.

## DIOLCH

Diolch i Eglwys Dewi Sant am ei rhodd hael o £50 i goffrau'r Dinesydd.

## CYDYMDEIMLAD

**SIOM FAWR i"w oedd clywed y newydd am farwolaeth sydyn iawn Mrs Joan Rees, priod annwyl y Parchedig Ifor Rees, Heol-y-coed, Rhiwbeina, ar Ragfyr 17eg, yn 66 oed. Bu cydymdeimlad pawb yn ddiffuant iawn â'i phriod yn ei brofedigaeth, a hefyd â'i brawd a'i deulu a'r cysylltiadau eraill i gyd.**

Yn enedigol o Bontyberem bu'n athrawes mewn gwahanol ysgolion am gyfnod, ond ar ôl ei phriodas daeth ei chartref a'i phriod yn brif ofal ei bywyd, a bu'n help difesur iddo yn ei holl waith. Bydd eu ffrindiau yn cofio amdanynt fel dau oedd bob amser gyda'i gilydd, nid yn unig ar achlysuron lleol ond ar achlysuron cenedlaethol fel yr Eisteddfod a chyfarfodydd yr Orsedd. Erys y cof cynnes am awyrgylch a chroeso arbennig y cartref.

Enillodd Joan Rees barch ac edmygedd ar sail ei phersonoliaeth gyfoethog, ei hiwmor iach a'i meddwl agored, diwylliedig. Dyna'r gemau disglair oedd yn harddu ei chymeriad, a bydd ymdeimlad mawr o golled ar ei hôl, a hynny'n arbennig yn eglwys Bethlehem Gwaelod-y-garth, Cymmrodorion Caerdydd a Chlwb Cinio John Penry. Cofir yn ddiolchgar hefyd am ei gweithgarwch brwdfrydig dros rai mudiadau dyngarol.


'Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd,
A lle bu hon mae gwell byd.'

Bu'r gwasanaeth coffa iddi yng Nghapel Bethlehem Gwaelod-y-garth ar Ragfyr 21ain. O dan ofal ei gweinidog, y Parchg T G Davies. Talwyd y deyrnged iddi gan y Parchg W Rhys Nicholas a chymerwyd rhan hefyd gan Dr Dyfnallt Morgan a'r Parchgn Gwynfryn Jones, Huw Ethall, Rhys Tudur a Fred Seccombe. Cafwyd datganiad hyfryd gan wythawd o Fethlehem, y geiriau yn gyfieithiad o waith y Parchedigion Ifor Rees, a Mr Christopher Powell wrth yr organ. Gwasanaethwyd ar lan y bedd yn Soar Pontyberem gan y Parchedig T J Davies, Eirian Davies a Glenville Rees.

Dymuna'r Parchedig Ifor Rees a'r perthnasau eraill ddiolch yn gynnes am gydymdeimlad a charedigrwydd ffrindiau ac am yr holl negeseuau a fu'n gymaint o gysur iddynt yn eu hiraeth.

**W.Rh.N.**

## HYWEL HARRIES




**d.s.**
**dalier sylw**
**yn cyflwyno**

**MYSGU CYMYLE**

**gan Branwen Cennard**

**Nos Wener, Mawrth 8fed**
**am 8.30yh**

≈≈

Golwg digri a difrifol o safbwynt
3 menyw o'r Rhondda, gyda
Grug-Maria Davies, Carys Llewelyn a
Gillian Elisa Thomas. Bydd Heather Jones
yn cyflwyno elfen gerddorol y sioe.

**Am wybodaeth pellach, cysylltwch â:**
**Ceri Morgan, Clwb Ifor Bach (232199) neu**
**Mai Jones, Dalier Sylw (489080).**

**celtic asset management cyf**

AELOD O GYMDEITHAS REOLI CYFRYNGWYR,
RHEOLWYR A BROCERIAID ARIANNOL

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

**TŶ PENHILL,**
**11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803

# SAFBWYNT

**AC AR ÔL trydydd emyn, eisteddwn bob un yn daclus i wrando ar y bregeth.**

Byddwn erbyn hyn wedi canu tri emyn, ac yn amlach na pheidio, wedi llafar ganu Gweddi'r Arglwydd. Byddwn wedi gwrando ar y plant, os mai oedfa'r bore yw hi. A byddwn hefyd wedi gwrando ar y darlleniad.

I'r rhai sy'n tynnu at eu canol oed, a phawb sy'n hŷn, dyma'r sialens gyntaf.

Y gamp yw ceisio trosi, yn y meddwl, iaith y darlleniad i Gymraeg cadarn, urddasol a chyfarwydd William Morgan. I'r neb a fagwyd yn sŵn a rhythmau yr olaf, ni ddyliai hyn fod yn orchwyl rhy anodd. Mae'n wir na ellir osgoi gwingo ambell waith o glywed bod y cartograffwyr diwinyddol wedi ail enwi yr hen Lyn Cysgod Angau yn "Ddyffryn Tywyll Du". Gwyddoch am y profiad. Rhywbeth fel ag a deimlwn pan welwn enw hen dyddyn neu gae, Erw Dirion, dyweder, wedi ei daflu o'r naill du gan gynllunwyr stâd o dai i'r ecseciwtifs, ac yn ei le arwydd ar ben y lôn yn datgan yr enw newydd: "Bodlondeb". Ar yr un trywydd, nid "diogel" mo Paul mwyach yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, ond "cwbl sicr". (Fel mater o resymeg, byddwn yn tybio bod dyn un ai yn ansicr neu yn sicr, beth bynnag fo'n y Groeg gwreiddiol.) Gair i Farnwr yn annerch y rheithgor yw "sicr". Ond mae'r gair "diogel" yn, wel, yn ddiogel. Ar lafar gwlad, 'does yr un gwell ymadrodd at gyfleu diogelwch rhag amheuaeth. "Mi elli di fod yn ddiogal, 'ngwas i, . . ." ynglŷn â'r peth yma neu'r peth arall. Gwingwn hefyd wrth glywed yr anogaeth ddiweddaraf yn y chweched salm a deugain. "Dewch i weld gweithredoedd yr Arglwydd", fel petaem yn cael gwahoddiad i ddod i weld y cerbyd modur diweddaraf. I ble'r aeth y syndod, y dirgelwch, y parchedig ofn?

Ond yn ôl at y bregeth. I nifer ohonom, yr ail sialens fydd gwrando arni ar ei hyd. Ar rhyw olwg, mae cychwyn ar bregeth anghydffurfiol rhywbeth yn debyg i lansio llong ar ei thaith dros y môr. Saif y pregethwr yn ei bulpud fel Capten. Am yr hanner awr nesaf, mae iddo awdurdod diamod. Y fo sydd i benderfynnu natur, hyd a chyrchfan y daith. 'Does dim llais yn y mater gan neb arall. 'Does dim dianc. Mae deddf gwlad yn diddymu hyd yn oed yr hawl sylfaenol o rydd ymadrodd ar ran aelodau'r gynulleidfa tra pery'r gwasanaeth. Nid gwiw i neb fynegi amheuaeth ar goedd, a 'does neb i wrthwynebu. Beth bynnag fo'n ymateb i'r syniadau a draddodir ar adegau, 'does neb i wyro i demtasiwn gan ryddhau'r ebychiad: "O lol botas maip!"

Wedi'r lansio, gellir ar adegau ragweld trywydd y bregeth ar gychwyn y daith. Mae sawl math ar bregeth. Heb fynd i fanylu, mae un nodwedd neu Ddeddf Natur yn berthnasol i'r rhan fwyaf ohonynt. A hon yw Deddf y Sgwâr Pen Uchaf Isaf. Yn y Saesoneg, fel y gŵyr unrhyw hogyn ysgol sy'n dewis gwrando ar ei athro Physeg, fe'i gelwir yn "Inverse Square Law".

Dywaid y Ddeddf hon bod maint a gwerth y naill beth yn mynd yn fwy pan fo peth arall sy'n gysylltiedig â'r peth cyntaf yn mynd yn llai; a vice versa. Er enghraifft, mae swn llais neu offeryn yn cynyddu tra bo pellter clust y gwrandawr yn lleihau. Yn yr un modd, mae llewyrch cannwyll yn edwino wrth i ni bellhau y llygad oddi wrthi. At bwrpas y llith bresennol, 'dai ddim ar ôl arwyddocâd yr ansoddair "sgwâr", er bod lle i gredu weithiau ei fod yn berthnasol ar ôl mwy na hanner awr o draethu.

Wrth ystyried pregeth yng ngoleuni'r Ddeddf hon, gwelwn fod ei gwerth a'i dylanwad yn dechrau lleihau unwaith y bydd y pregethwr sy'n llywio'r daith wedi croesi ffin arbennig. Sut mae gwybod ple mae'r ffin yma? Sut y gallwn ni achub y bregeth rhag iddi golli ei neges?

Y cyntaf i deimlo bod y ffin wedi ei chroesi yw y gynulleidfa. Ond fel ag y dywedais i, 'does ganddyn 'nhw ddim llais na dylanwad. Yn ymarferol, felly, mae'r cwbl yn dibynnu ar y pregethwr.

Dros y blynyddoedd, fe ysgrifennwyd llyfrau a chyfrolau lawer ar y Bregeth ac ar Bregethu. O'r hyn a welais ohonynt, prin y gellid honni y dylid eu cynnwys ymysg llenyddiaeth fawr y byd. Fe'u hysgrifennwyd bron yn ddieithriad gan Bregethwyr, ac nid gan gynulleidfaoedd. Ysywaeth, ysgrifennwyd nifer ohonynt gan wŷr a dybient eu bod ymhlith rhengoedd breintiedig y Pregethwyr Mawr.

Dyma frid o bregethwyr y bu bri arnynt yng Nghymru am ganrif a hanner neu fwyh. Mae un neu ddau eto i'w gweld a'u clywed ym mhulpudau y naill enwad neu'r llall. Gwyddoch amdanynt. O ddringo i'r pulpud, fe'u gweddnewidir. Mae'r dyn naturiol dirodres yn diflannu. Yn niogelwch y pulpud, daw o'i enwau ddarogan o'r math na ddisgwylid byth ei glywed mewn ymddiddan diffwadan â'r dyn. Nid oes fawr o gydymdeimlad â'r gwrandawr. Fe'i meddiannir a pheth o ysbryd ambell i broffwyd o'r hen destament. Darllenwch nhw. Cewch weld be sy' genai.

Mae lle i lawlyfr ar bregethu gan y werin, gan y gwrandawyr. Ynddo, bydd cyfres o Reolau Sylfaenol. Ac ymhlith y cyfryw Reolau, ac mewn man amlwg, bydd Rheol neu Ddeddf y Sgwâr Pen Uchaf Isaf.

Af ymlaen at y Rheol nesaf yn Llyfr y Werin ar Bregethu. Mae'r Rheol hon nifer o is reolau; a 'wnai heddiw ond cyffwrdd yn ysgafn ar ddwy ohonynt.

Gellir mynegi y Brif Reol fel a ganlyn:

> "Cymer y gofal eithaf ynglŷn ag unrhyw Bregeth Deud y Drefn."

Yn ôl hen weinidog profiadol a adwaenwn yn dda, peth hawdd iawn yw llunio Pregeth Deud y Drefn. Gall fod yn bregeth y pregethwr diog na fu'n was cydwybodol i'w grefft. Ar adegau, try pregeth o'r fath yn rhyw fath o gyffesiad ar ran y pregethwr, heb iddo yn iawn sylweddoli hynny. Yn groes i'r drefn naturiol, y pregethwr fydd yn bwrw ei faich ar ysgwyddau ei gynulleidfa.

'Does dim yn newydd yn hyn. Ewch eto at rai o broffwydi'r Hen Destament. Ystyriwch un enghraifft – enghraifft braidd yn eithafol, 'rwy'n cyfaddef. Gofynnwch i chwi eich hunain: beth mewn difrif oedd yn pigo Eseciel pan aeth ati i ysgrifennu ei unfed bennod ar bymtheg? Ai dyma fynegiant dyn cydbwys gwerthrychol a oedd wedi "profi'r ysbrydion" fel ag yn ôl Epistol Cyntaf Ioan yr Apostol?

Af ymlaen i grybwyll dim mwy na dwy is reol o Lyfr y Werin ar Bregethu.

Yr Is Reol Gyntaf.

> "Gochel rhag dwrdio'r gynulleidfa am fod pobol eraill wedi cadw draw".

Mae tarddiad yr Is Reol hon i'w gweld mewn synnwyr cyffredin a chwarae teg. Prin bod yn rhaid manylu ymhellach. Os nad yw'r mater yn amlwg i'r sawl sydd wedi aros munud i feddwl am y pwnc, ofer fyddai ceisio treiddio ymhellach i'w ymwybyddiaeth.

Yr Ail Is Reol.

> "Gochel rhag taflu amheuaeth ar yr hyn a symbylodd dy gynulleidfa i ddod i wrando arnat ti"

Mae amrywiaeth diderfyn i'r rhesymau sy'n peri i bobol i fynd i'r cwrdd. Gan na fynnaf ryfygu tresmasu ar symbyliad ysbrydol neb arall, mentraf grybwyll dau reswm eitha cyffredin, sef

(i) Gweld ffrindiau, a

(ii) Magwraeth ac arferiad.

Ond pwy a fu'n eistedd yng nghwmni cynulleidfa denau na chlywodd Ddeud y Drefn am mai dyna'r rhesymau pam y daethom yno? A oes yn y cerydd yr awgrym y dylem yn hytrach fod wedi mynd i rodio yng nghyngor yr annuwiolion sydd wedi cadw draw?

Fe wêl y darllenydd mai yn o brif amcanion Llyfr y Werin ar Bregethu fydd argyhoeddi ac achub y Pregethwyr Mawr. Amser yn unig a ddengys os y ceir graddfa cant y cant o lwyddiant.

Wedi dweud hyn i gyd, rhaid cofio na fydd angen Llyfr y Werin et cetera ymhob

stydi a llyfrgell ddiwinyddol. O drugaredd, ac yn hyn gallwn yn ddidwyll roddi diolch i'r Drefn, mae yn ein mysg bregethwyr annwyl a diymhongar sy'n saernio'u pregethau'n gelfyddyd ac sydd â pharch i'w cynulleidfa. Dynion a gwragedd sy'n teimlo mai o ofal y bugail yn fwy nag o ymchwydd y proffwyd y daw'r gwirionedd.

Wedi'r cyfan, be ddeudodd O?
Nid "Myfi yw y pregethwr mawr".
Darllenwch y ddegfed bennod o Efengyl Ioan, adnod 11.

**Kynric Lewis**




# TELERI BEVAN – *yn ymddeol*

**YN 1967 gwahoddwyd Teleri Bevan i 'lanw bwlch' fel cynhyrchydd y rhaglen Radio 'Merched yn Bennaf' am gyfnod o dri mis. Roedd hi eisoes yn gynhyrchydd profiadol – fe'i penodwyd ddeng mlynedd yng nghynt i gynorthwyo Lorraine Davies gydag 'Awr y Plant' a rhaglenni Ffermio ond ar ôl genedigaeth ei mab, Huw, cymerodd saib o bedair blynedd cyn derbyn y gwahoddiad i ail-ymuno â'r BBC am gyfnod byr. Daeth y tri mis hwnnw i ben – ond fe aeth tair blynedd ar ugain pellach heibio cyn i Teleri ymadael â'r Gorfforaeth! Ymddeolodd ddiwedd y flwyddyn a hithau erbyn hynny yn Bennaeth Rhaglenni.**



Dros y blynyddoedd gwelodd newid sylfaenol ym myd darlledu gyda'r BBC yn colli ei 'fonopoli' ac yn wynebu'r her nid yn unig o fod yn gystadleuydd â darlledu annibynnol ac yn gyfrannydd i S4C ond hefyd o fod yn gomisiynydd rhaglenni ei hun. Dros yr un cyfnod bu newid mawr yn ei hanes proffesiynol hithau. Gyda'i phenodiad fel Golygydd cyntaf Radio Wales yn 1978 bu'n rhaid iddi gynefino'n sydyn â gwaith newydd sbon fel gweinyddwr yn hytrach na chynhyrchydd a hynny ar adeg o gynnydd mawr pan ehangwyd oriau darlledu'r BBC yn Saesneg o 20 i 60 awr yr wythnos. Dywed Teleri mai'r cyfnod hwnnw oedd un o'r mwyaf cyffrous a diddorol yn ei phrofiad – er iddi sylweddoli'n gyflym bod y boddhad o lunio polisi a rhoi arweiniad yn cyd-redeg â'r rheidrwydd i 'gymryd y bai' am frychau! Gall cynhyrchydd ofyn i rywun arall os daw hi i'r gwaetha – dyw'r ddihangfa honno ddim ar gael i weinyddwr. Doedd dim modd, chwaith, dianc rhag problemau'r wyth-degau. Fel Dirprwy – Bennaeth ac yna fel Pennaeth, o 1985 ymlaen bu Teleri 'yn ei chanol hi' drwy'r degawd ar ei hyd, degawd y cyfyngiadau ariannol mawr. Gwelodd yr effeithiau ar rai o'i chyd-weithwyr.

Roedd yn gas gen i weld pobl ddawnus, brofiadol yn colli eu swyddi a hefyd yn chwith gen i heb yr hen gwmniaeth pan fyddai criw mawr ohonom ni o wahanol adrannau'n dod at ein gilydd i ddadla a thrafod a chyfnewid syniadau.

Er hynny mae ganddi atgofion melys am y deng-mlynedd ddiwethaf.

Dwi'n falch er enghraifft o lwyddiant y penderfyniad i ddarlledu 'Pobl y Cwm' yn gyfer S4C – wedi'r cwbl, Caerdydd yw'r unig ganolfan i wneud y fath beth – a diolch i'r holl dîm yn sgriptwyr a chynhyrchwyr ac actorion – am eu doniau a'u dyfalbarhad. Ffantastig.

Er gwaethaf y toriadau ariannol mae Teleri'n parhau i fod yn obeithiol a hyderus – 'Mae'r Gorfforaeth wedi creu rhaglenni ardderchog erioed drwy'r holl chwildroadau technegol a pheirianyddol yn y gorffennol ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n rhagweld yr un math o lwyddiant yn y dyfodol.'

Ond beth am ei dyfodol hi ei hun? Mae 'na olygfa braf iawn o'i chartre yn Llandaf – yr afon is-law a'r coed a'r caeau'n ymestyn i gyfeiriad Ystum Taf – ac ers tri mis mae Teleri wedi cael mwy o amser nag y cafodd erioed o'r blaen i'w mwynhau.

Ond prin bod golygfa'n ddigon i foddhau enaid byw.

Mae yno ardd – ond prin bod Teleri'n debyg o fod yn dendiwr dyfal 'mae 'na fodfeddi o goncrit drosti!'

Os felly – beth? O bwyso arni mae'n cyfaddef mai cas ganddi wynebu segurdod llwyr er gwaethaf ei dileit yn ei rhyddid presennol. I'r rhai ohonom ni sy'n cofio am ei chyfweliad â Mrs Gandhi mae ei dawn fel perfformwraig yn o gystal â chynhyrchydd a gweinyddwr yn awgrymu trywydd newydd. Gobeithio'n wir.

Ein dymuniadau gorau iddi, ynghyd â'n llongyfarchiadau ar gyrraedd uchel-leoedd y BBC. Diddorol yw nodi na soniodd Teleri o gwbl wrth drafod ei gyrfa, at ei sefyllfa allweddol mewn byd sydd hyd heddiw yn fyd gwrwaidd! Tybiwn mai gwell ganddi sôn amdani ei hun fel gweinyddwr yn hytrach na gweinyddwraig – ond, er hynny, cyflawnodd dipyn o gamp!

# CEWRI HYNOD – CRIW O HENGOED

**Fel llwythi Israel gynt daeth yr hogiau ynghyd ar ddydd gŵyl i'r brifddinas. Er fod teml y Maes Cenedlaethol a'r frwydr yn erbyn y Saeson yn denu rhywfaint nid hynny oedd prif nod y penwythnos.**

Eleni mae Clwb Cymric (clwb pêl-droed Cymry Caerdydd) yn dathlu un tymor ar hugain o gyd-chwarae yn Gymraeg ar gaeau Caerdydd a'r fro. Dros y blynyddoedd chwaraeodd ugeiniau lawer o bêl-droedwyr brwd i'r clwb. Mynd a dod fu hanes cynifer ohonynt a llawer wedi cefnu ar Gaerdydd bellach ac wedi'u chwalu i bob cwr o Gymru.

Ond, daeth criw mawr yn ôl i herio'r chwaraewyr ifainc presennol – mwy na digon i godi dau dîm. Chwaraewyd dwy gêm yr un pryd, y naill yn erbyn y tîm cyntaf presennol a'r llall yn erbyn yr ail dîm.

### CYN-CHWARAEWYR v. TÎM 1af CLWB CYMRIC

Efallai bod y gwallt yn wynnach a'r fegin yn dynnach ond roedd popeth arall fel erioed. Syfrdanwyd glaslanciau ifainc Cymric gan chwarae llyfn clasurol yr hen hogiau. Un tîm oedd ar y cae am yr ugain munud cyntaf. Gyda rhywfaint o ffawd o'u plaid gallasai'r hen hogiau fod dair neu bedair gôl i fyny. Lwc, y trawst a champau rhyfeddol Dewi Corris yn y gôl a gadwodd y tîm presennol yn y gêm. Roedd cydchwarae a sgiliau'r llinell flaen o Êls, John Hardy a Bobs yn ddychryn parhaus i'r hogiau ifainc.

Rhyfeddod annisgwyl oedd y gôl gyntaf i'r tîm presennol, a'u dwy gôl nesa' o ran hynny! Cwbl annheg oedd sgôr o 3-0 yn erbyn yr hen hogia' ar hanner amser. Gwyddai'r chwaraewyr a'r dorf deilwng a wyliai mai fel arall y dylai fod. Ni allai Alan Hughes gredu fod y bêl wedi ei osgoi deirgwaith ar y ffordd i'r gôl.

Yr un oedd yr hanes yn yr ail gyfnod, pêl-droed gwefreiddiol a phasio cywir tîm y 70au cynnar yn dangos fod profiad yn mynd ymhell yn erbyn ffitrwydd ieuenctid. Gweithiai'r tri yng nghanol y cae, Dafydd Mona, Moi a Dobson, yn hynod o galed er bod ychydig arwyddion o golli cyflymdra.

Perai chwarae crefftus yr hen hogiau bob math o drafferthion i amddiffynfa'r ieuenctid. Cymaint yn wir fel y bu raid iddynt ildio cic o'r smotyn i'w rhwystro. Plannodd Dafydd Mona y bêl yn hyderus i gornel y rhwyd a'r sgôr yn 3-1.

Sioc i bawb oedd gweld y sgor yn troi'n 4-1. Gall pêl-droed fod yn gêm greulon iawn a buasai llawer i dîm wedi torri'u calonnau'n llwyr ar ôl anlwc o'r fath. Nid felly'r hen hogiau. Yn ôl y daethant ac o dan bwysau cynyddol bu raid i'r ieuenctid ildio cic arall o'r smotyn a gwaith hawdd i John Hardy oedd gosod y bêl yn y rhwyd.

Er ymdrechu'n chwyslyd ni fedrai'r hogiau ifainc wneud fawr ddim i boeni amddiffynfa'r sêr lle roedd Gareth Huws, Geraint Rowlands, Siôn Emlyn, Alun Coetmor a'r ddau eilydd Ken a Huw yn gewri di-guro.

4-2 oedd y sgôr terfynol. Gollyngdod llwyr i'r tîm presennol oedd cerdded yn fuddugoliaethus lwcus o'r maes. Go brin fod neb yn cytuno â'r sgôr. Heb os, mi gollodd y tîm gorau.

Ta waeth, bu'r cyfle i sgwrsio, hel atgofion a chyd-chwarae eto yn brofiad amheuthun i ni i gyd. Ymlaen i'r dathliad nesa' – mi fyddwn ni'n ôl.

Gwŷr o ffiniau'r gorffennol – yn arwyr
y chwarae gorchestol;
Eu doniau gwych syfrdanol
Ddeuai â naws ddoe yn ôl.

**Moi Parri**
***(Treffynnon, Clwyd bellach)***

### YMDDIHEURO

Y mae'r Golygydd yn ymddiheuro i Lowri a Geraint Cynan am y gofid a achoswyd iddynt gan gam – gyhoeddiad yn ein rhifyn diwethaf. Dyma geisio unioni'r cam. DYFED CYNAN yw enw'r bychan sydd wedi dod â llawenydd i'r teulu. Llongyfarchiadau.

### LLONGYFARCH

Mae'r ddau deulu yn llawen i gyhoeddi dyweddiad ELIN merch hynaf Mr a Mrs Dilwyn Morgan, Y Barri, â GARETH mab ieuengaf Mr a Mrs Merfyn Jones, Newbury, gynt o Gaerdydd. Y mae darllenwyr Y Dinesydd yn cydlawenhau â hwy. Pob dymuniad da i chi'ch dau.

### CYDNABYDDIAETH

Llongyfarchiadau i Emyr Currie Jones ar yr anrhydedd a ddaeth i'w rhan yn ddiweddar. Ymysg eraill dyrchafwyd ef i fod yn Ddirprwy Raglaw De Morgannwg. Hyn i gydnabod ei wasanaeth fel Cadeirydd Cyntaf Cyngor De Morgannwg, ei gyfraniad i fyd addysg, i'r Eisteddfod yn y brifddinas a'i ymgyrch gyson i hybu'r Gymraeg dros y blynyddoedd.

**DYDDIAD COPI**
**MAWRTH**
**14-02-91**

## LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

Mewn ymgais i fod o wasanaeth ymarferol i'n cymrodyr tu allan i Gymru, yr ydym fel Mudiad wrthi'n paratoi rhestr o unigolion a grwpiau fyddai'n barod i ddarlithio a/neu fod yn siaradwyr gwadd a/neu'n ddiddanwyr yng nghyfarfodydd y Cymdeithasau Cymreig yn Lloegr a'r Alban a thros y môr. Gall hyn fod am dâl a/neu'n wirfoddol, wrth gwrs.

A wna y personau hynny felly sydd â diddordeb mewn cynnwys eu henwau yn y cyfryw restr anfon rhagblaen, os gwelwch yn dda, at ein Llywydd Anrhydeddus (T. Elwyn Griffiths), 15 Erw Wen, Caeathro, Caernarfon, Gwynedd? Bydd eich cymorth yn wir dderbyniol.

**Annwyl Dinesydd**

Ar hap llwyr cofais afael ar gopi o rifyn Ionawr o'r Dinesydd. Mwynheais ddarllen llith E. Aled Jones am Glwb Pêl-droed Felinfach a'r gêm yn erbyn Gymric yn '75.

Roeddwn i'n un o'r tîm a gyrchodd i'r gorllewin y mis Awst hwnnw. Roeddwn hefyd yn chwarae pan ddaeth Felinfach draw atom ni i Gaerdydd. Ar wal y tŷ hwn y mae'r tlws a gawsom yn rhodd gan dîm Felinfach.

Beth am gael erthygl gan un o dîm '75 Felinfach i adrodd peth o hanes eu hymweliad â'r brifddinas? Nid yn gymaint am hanes y gêm efallai ond am oriau'r hwyr a dreuliwyd yng nghanol y ddinas ac i lawr am y dociau. Go brin fod Caerdydd hyd yn oed wedi gweld ymosodiad o'r fath. Efallai y byddai raid sensro rhyw ychydig ar y storïau ond mi fuasai'n hybu'r gwerthiant.

Llongyfarchiadau i'r Dinesydd am ei gynnwys a'i ddiwyg.

Yn gywir,
**Moi Parri**

# Croeso Cymreig Ffotogallery

**OS BYDDWCH yn ymweld â'r oriel ffotograffau a elwir yn Ffotogallery yn Heol Siarl, yna fe gewch groeso gan Gymraes sy'n enedigol o'r ddinas. Bu Menna Jones yn ddisgybl yn ysgolion Bryntaf a Glantaf cyn graddio mewn Hanes Celf a Dylunio ym Mholitechnig Caerlŷr.**

Y mae Ffotogallery mewn man cyfleus i daro'i mewn – ar draws y ffordd i maes a drws nesaf i gapel Ebeneser. Yr arddangosfa bresennol yw 'EVERGON' o 29 Ionawr-9 Mawrth 1991.

Cynrychiolwyd gwaith Evergon, un o ffotograffwyr cyfoes mwyaf blaenllaw Canada, mewn llawer o arddangosfeydd rhyngwladol yn Ffrainc, America, yr Iseldiroedd, y Swisdir a nifer o wledydd eraill. Ei arddangosfa adolygol cyntaf yw hon. Wedi ei threfnu gan Amgueddfa Ffotograffiaeth Gyfoes Canada, y mae'n olrhain ei waith pwysicaf o 1971 i 1987.

Er iddo gael ei hyfforddi yn y celfyddydau traddodiadol, megis peintio, cerfluniaeth a darlunio, ym 1969, ymddidorodd yn y cyfryngau ffotograffig, ac yn fwy neilltuol mewn prosesau y gellid eu trafod gyda llaw. Y mae ei holl waith diweddaraf yn canolbwyntio ar brosesau gweithio ffotograffau Polaroid mawr; y mae hwn yn gyfrwng neilltuol o addas i Evergon oherwydd fod ei waith yn ymdrin â'r berthynas rhwng darluniadaeth a ffotograffiaeth 'syth'.

Yn bennaf, astudiaethau o ffigurau rhamantus, addurniadol yw ei ffotograffau sy'n manteisio ar foethusrwydd cyfrwng y print. Mae'r gweithiau i gyd wedi eu llwyfannu'n ofalus gydag actorion yn perfformio rôlau penodol, sy'n dangos dyled i beintiadau o'r Dadeni a pheintiadau Holandaidd or Ail Ganrif ar Bymtheg. Mae'r gweithiau yn cymylu'r gwahaniaeth sydd rhwng y categorïau o beintio a ffotograffiaeth ac maent yn codi cwestiynau ynglŷn â chynrychiolaeth ddarluniadol mewn diwylliant sy'n seiliedig ar y lens.

Y mae catalog 80 tudalen, wedi ei ddarlunio'n llawn, ar gael am £15.00 o'r oriel i fynd gyda'r arddangosfa hon a rhyw 45 darn o waith. Ar hyn o bryd y mae yna arwerthiant o lyfrau a phrintiau ac ambell fargen go dda ar gael! Galwch mewn.

# Golygydd Newydd MELA

**PENODWYD MARRED JONES yn olygydd y cylchgrawn newydd i ferched, MELA, sy'n cael ei lansio fis Mai eleni.**

Wedi blynyddoedd yn gweithio fel gohebydd i'r wasg a'r cyfryngau, a chyfnod fel golygydd SBEC y tu ôl iddi, mae gan Marred brofiad eang yn y maes, a llu o gysylltiadau a fydd o fantais iddi yn y gwaith.

Dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at y sialens o olygu'r cylchgrawn, a'i bwriad yw cynhyrchu misolyn gyda diwyg newydd ffres, tudalennau lliw ac erthyglau difyr, amserol. "Rwy'n gobeithio y bydd MELA yn gylchgrawn y gall merched Cymru uniaethu ag o, ac y bydd yn lais positif ar eu rhan."

Ganwyd Marred ar Ynys Môn, ond mae hi bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn teithio led led Cymru fel bo'r gwaith yn galw.


# GRADD ALLANOL

# Prifysgol Cymru



Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn: Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth, Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.



At hyn, cynigir cwrs Cymraeg Rhan Un ar gyfer dysgwyr.

**Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen gais, cysylltwch â:**

**A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol,**
**CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth**
**(Ffôn 0970-622049/50).**



# MENNA'N MANYLU



**MADDEUWCH FY mod mor blwyfol a theuluol y mis yma ond 'enwau' sy'n fy mhoeni'r tro hwn. Dwn i ddim os cofiwch chi fi'n sôn fod fy mrawd a'i wraig yn mynd i barhau i ffermio fferm y teulu yn y dyfodol agos a bod ganddynt darged o ddeuddeg o blant i'w gyrraedd – wel, deni'n disgwyl newyddion unrhyw funud am y cyntaf – ac erbyn i hwn ymddangos mi fydda inne'n ddodo am yr unfed tro ar ddeg!**

Dyne aelod bach arall i gapel Methodistiaid Soar, Cwm Cynllwyd, ond beth fydd yr enw tybed. Mae'n drod-dodiad y ffordd acw i barhau enwau teuluol am genedlaethau. Os mai mab fydd o mi fydd 'na broblem gan fod llawer gormod o Seimoniaid, Robertsus, Williamwyr a Gruffuddiaid yn y teulu. Os mai merch fydd hi falle y bydd modd rhoi enw tymhorol iddi, fel Ionwen neu Eira (gan fod eira yn y cwm am fisoedd y flwyddyn). Pwy a ŵyr – bydd llawer o grafu pen wedi bod cyn hynny. Sôn am enwau, mae'r tŷ ar hen safle capel yr Annibynwyr, lle brynnodd mam i wneud nyth newydd i'w thylwyth – bellach ar ei draed a'r enw wedi ei ddewis. Bu peth meddwl a phendroni, rhai isio o cario hen enw'r fferm a'i droi o Nant-hir yn Hir-nant; eraill isio rhoi stamp y cwm arno a'i alw'n 'Cysgod yr Aran', finne wedyn am gadw hen enw'r capel a'i alw'n Bryn Seion i gofio bod y Methodisiaid wedi maeddu'r Annibyns! Ond yr enw a ddewiswyd oedd 'Tan y foel' – ie achos ei fod o dan y foel, sef moel Rhydybod (cartre hen deulu René Griffiths aeth i Batagonia, a'r man y bu i Hywel Harris bregethu ar un o'i deith-iau).

Ches i fawr o drafferth i ffeindio enw i'm tŷ newydd i: enw'r stryd ydi LOFTUS, a chan i mi gael fy ngalw'n fuwch amal i dro, be well na LLOFFT STABAL yn de!

Ond i bawb adre, Menna Nant-hir fydda i am byth – rhyw enw cyfryngol braidd ydi Menna Medi, ac mae rhai pobol yn dal yn ddigon dwl i ofyn ym mha fis mae fy mhen blwydd – a finne'n fwy dwl yn ateb mis Hydref! Welai chi mis nesa!

**LLONGYFARCH**

Llongyfarchiadau i D Gwyn Jones, arch chwilotwr ar ran plant Cymru, ar yr anrhydedd o dderbyn gradd MA anrhydeddus gan Brifysgol Cymru.


**Cae'r Delyn**

**Y Feithrinfa yn y Fro, yn Saint Hilari, ger y Bontfaen**

**Ffôn: 0446 772888**


## Soned y Mis

### YMBIL

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, gad
I mi, a ddodaist ar y ddaear hon,
Ymbil am un gymwynas ddinacâd
Yn gysur wrth afonydd Babilon.
Un ffafr. Ti wyddost na ryglyddais ddim
Erioed o'th drugareddau rif y dail
Na'r gras sy'n gymorth cyfamserol im
Ym mherson gwynfydedig Adda'r Ail.
Nid am it ddisgyn o'th gynteddoedd fry
I'm tywys trwy'r anialwch tua thref
Heb wyro ar dde nac aswy gyda'r llu, –
Nid hyn, O Fugail Israel, yw fy llef,
Ond am i mi, fel Tithau, ambell awr
Gael llonydd gan holl derfysgiadau'r llawr.

*T. H. Parry-Williams*

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys

ER EI BOD hi'n Chwefror bellach rhaid cyfeirio at y Gwasanaeth Carolau hyfryd a gafwyd yn Eglwys Sant Pedr adeg y Nadolig. 'Roedd y naws ben-dithiol, y canu cynulleidfaol persain a'r eitemau cerddorol gan grwpiau dewisiedig yn fwy na phleserus. Hyn oll ynghyd â'r darlleniadau trawiadol, wedi llwyddo i greu Gwasanaeth Bythgofiadwy. Mary Williams oedd yr organyddes a'r Parchedig Ganon James Keane a roddodd y Fendith. Trefnwyd Gwasanaeth gan Alun Daniel a Gerallt Evans.

YN EIN Cyfarfod i ddathlu'r Flwyddyn Newydd, croesawyd Mallt Anderson atom i'n diddori gyda llwyth o chwaraeon traddodiadol Cefn Gwlad.'Roedd hi'n noson hwylus dros ben a phob oed yn ymuno yn y sbort a'r sbri. Trefnwyd ymborth tymhorol gan Moyra Owen a bu Alun Daniel, Ann Bryan ac Owena Hopwood wrthi'n twymo cymysgedd o win a ffrwythau i gynhesu pawb cyn cychwyn am adre. Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Nos Lun Mawrth 4 yng Nghlwb BP y Sili. Cewch ginio wrth eich bodd mewn cwmni da am bris rhesymol felly brysiwch i sicrhau tocynnau trwy ffonio Mrs Moyra Owen 701877 neu cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor. Ein Gwes-tai arbennig eleni fydd Mrs Mair Tudno Jones, cantores ac actores o fri ac arweinydd enwog Côr y Creigiau. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu hi a'i gŵr Mr Elwyn Tudno Jones i'n plith ar achlysur arbennig.


O'R PRIDD
ENVIRONMENTAL CONTRACTOR
GWEITHIAU YN YR AMGYLCHEDD

**Andrew E. Dixey**
10 Gellidawel, Rhydfelen,
Pontypridd
Morgannwg Ganol, CF37 5PR
☎ 0443 402091

Gwaith tir a choed,
Bach neu mawr yn cynnwys:
Ffensio, walio, plannu,
tocio a thorri.

# HWYRACH!

**MAE 'NA gyflwynydd newydd wedi ymuno â chast disglair HWYRACH, rhaglenni ieuenctid Radio Cymru.**

Ydych chi'n barod i fod DAN DDYLANWAD Daniel Glyn?

Bydd Dan y Dyn (a wnaethpwyd yn seren eisoes ar Slot 23, S4C) ar Radio Cymru bob nos Wener am 10.05pm o Ionawr 11, 1991 ymlaen.

Bydd yna gystadlaethau di-ri, sgwrsio di-stop, llwythi o gerddoriaeth a lot fawr o Daniel Glyn ar DAN DDYLANWAD, a chyfle i'r gynulleidfa ffonio ar (0222) 578585.

DAN DDYLANWAD
Bob Nos Wener
Radio Cymru
10.05pm

Fyddwch chi byth r'un fath!



# DEALL Y SYSTEM DAI

**PA FATH o lety sydd ar gael i mi a sut alla i roi fy enw ar y rhestr aros? Bydd fy newis o ardal yn golygu bydd yn rhaid i mi aros yn hirach am lety? Alla i gyfnewid tŷ gyda thenant arall? Beth os ydw i'n ddigartref?**

Dyma'r math o gwestiynau a ofynnir gan denantiaid a rhai sydd yn ymgeisio am dai oddi wrth gynghorau lleol a chymdeithasau tai. Mae tai "cymdeithasol" o'r math yn wasanaeth cyhoeddus, ac mae'n rhaid iddo fod yn atebol ac yn deg – i denantiaid, i ymgeiswyr am dai ac i'r gymuned yn gyffredinol. Dyna pam mae hi'n hanfodol i landlordiaid esbonio eu polisïau tai yn effeithiol fel bod ymgeiswyr am dai yn deall sut mae'r system yn gweithio ac nad ydyn nhw'n colli allan oherwydd eu hanwybodaeth.

Dyma a ddywed yr adroddiad, *Egluro Gosod Tai (1)*, a gyhoeddir heddiw (Dydd Mawrth, Ionawr 15, 1991) gan Gyngor Defnyddwyr Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol (National Consumer Council). Bwriad yr adroddiad yw helpu'r bobl hynny sy'n gweithio mewn awdurdodau tai i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig sy'n eglur ac yn ddealladwy ar gyfer eu tenantiaid a'u darpar denantiaid. Heddiw hefyd cyhoeddir llawlyfr o ganllawiau ar gyfer awdurdodau tai sy'n dangos iddyn nhw sut yn union y mae gwneud hyn.

Mae'r adroddiad a'r llawlyfr wedi eu seilio ar sefyllfaoedd yng Nghymru ac fe'u paratowyd fel ymateb i alw gan awdurdodau tai Cymreig, ond mae'r canlyniadau a'r argymhellion yn berthnasol i Brydain gyfan.

### PAM NA DDYLID CADW GWYBODAETH YN DDIRGEL

Eglurodd Cyfarwyddwr Cyngor Defnyddwyr Cymru, Kathrine Hughes: "Mae gadael i bobl barhau mewn anwybodaeth ynglŷn â sut mae'r system osod tai yn gweithio yn annheg. Gall hyn olygu y bydd pobl SYDD yn deall y system yn elwa ar draul pobl sydd â mwy o angen am dai.

"Mae angen i ddefnyddwyr wybod pa fath o lety sydd ar gael iddyn nhw ac os ydyn nhw'n gymwys i ymgeisio amdano. Dylent hefyd gael gwybod am y gwahanol ddewisiadau sy'n agored iddyn nhw er mwyn cael eu cartrefi yn gynt, ac am yr amgylchiadau arbennig fydd yn eu rhoi ar ben y rhestr aros. Efallai bod hyn i gyd yn ymddangos yn sylfaenol iawn – ond i'r darpar denant mae'n hollol hanfodol.

Mae yna ystyriaethau pwysig eraill – fel ennill hyder ymgeiswyr bod y system yn gweithio o'u plaid nhw. Mae angen rhoi sicrwydd i ymgeiswyr bod eu darpar landlord yn atebol iddyn nhw, hefyd mae angen iddyn nhw allu barnu os ydyn nhw wedi cael eu trin yn deg a gwybod os allan nhw apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad."

### LANDLORDIAID YN ELWA HEFYD

Ychwanegodd Katherine Hughes: "Mae manteision i landlordiaid yn ogystal â thenantiaid a darpar denantiaid wrth gyfathrebu yn effeithiol. Os yw ymgeiswyr yn gwybod sut mae'r system yn gweithio yna mae nhw'n llai tebygol o wastraffu amser ac adnoddau eraill awdurdodau gyda'u hymoliadau er enghraifft.

"Mae cyfathrebu yn effeithiol yn golygu gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer defnyddwyr a darparwyr fel ei gilydd."

Mae pwyslais yr adroddiad ar hyrwyddo'r arferion da sydd yn barod yn cael eu dilyn gan rai landlordiaid "cymdeithasol" yng Nghymru.

"Dydyn ni ddim yn cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw at wendidau. Mae'n ymddangos bod llawer o landlordiaid yn ceisio eu gorau glas i gynhyrchu gwybodaeth dda i'w tenantiaid, ond dydyn nhw ddim yn siŵr sut i fynd o'i chwmpas hi bob amser. Ein gobaith ni yw y bydd yr adroddiad hwn yn help i'w rhoi nhw ar ben ffordd," meddai Katherine Hughes.

I gefnogi'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn mae Cyngor Defnyddwyr Cymru wedi ceisio cymorth y Plain English Campaign er mwyn paratoi llyfryn o ganllawiau ar gyfer arbenigwyr tai. Rhoddir ynddo gyngor ymarferol ar sut i gynhyrchu gwybodaeth ysgrifenedig sy'n ddeniadol i'r llygad, yn ddarllenadwy yn hawdd i'w deall ac yn hawdd i gyfeirio ati.

Mae edrych ar elfennau allweddol fel:

- cyflwyno deniadol – pa fath o bapur i'w ddefnyddio, darluniau, defnydd o liw;
- bod yn ddarllenadwy – pryd i ddefnyddio gwahanol feintiau a mathau o deip, hyd llinellau;
- eglur – osgoi "jargon", cadw ffeithiau yn syml a chryno;
- cynhyrchu gwybodaeth mewn mwy nag un iaith – sut i gynllunio'r ddogfen er mwyn rhoi statws gydradd i wahanol ieithoedd.

# UCAC yn 50 Mlwydd Oed Dathlu yng Nghaerdydd

**MEWN CYFARFOD tra arbennig yng Nghaerdydd ar 15 Rhagfyr, dathlwyd sefydlu UCAC, hanner can mlynedd yn ôl. Ar brynhawn Sadwrn, 14 Rhagfyr, 1940, y sefydlwyd yr Undeb yn Nhŷ'r Cymry, Caerdydd.**

Daeth cynulliad teilwng o gyn lywyddion cenedlaethol a chyn swyddogion yr Undeb, aelodau a chyfeillion ynghyd i'r achlysur. Rhaid i'r cyfarfod fod yn galondid i'r Llywydd Cenedlaethol presennol Emyr Hywel, a'r Is-lywydd, Eric Evans, a gynrychiolai swyddogaeth gyfredol yr Undeb yno.

Eric Evans a ddarllenodd gofnodion manwl Y Cyfarfod Sefydlu a ddangosai pwy yng Nghymru'r dwthwn hwnnw a gefnogai sefydlu corff cenedlaethol Cymreig i uno athrawon y genedl. Y rhai a gymerodd at y prif swyddi oedd y glewion a fu'n gohebu ers blwyddyn a mwy i ddwyn perswâd ar eu cyd Gymry i gefnogi'r fenter: Gwyn M Daniel a Victor H Jones yn ysgrifenyddion, (a nhw fu prif symbylwyr yr ymgyrch flaenorol); Evan John Jones yn Llywydd a D J Williams Abergwaun yn Is-lywydd, er iddo fynegi'n blaen mai gwell i'r Undeb fyddai peidio â chysylltu ei hun wrth ei enw ef!

Ymhlith y rhai oedd yn ymddiheuro am eu habsenoldeb – a chofiwn am yr anawsterau teithio ac mai adeg y cyrchoedd awyr ar Dde Cymru oedd hi – yr oedd Saunders Lewis, Ifan ab Owen Edwards, Ellen Evans y Barri ac Amy Thomas (Parry Williams).

Cytunodd Penri Treharne y Barri ddarllen cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Gwaith yr Undeb a gyfarfu yn Amwythig, ym 1952, gan mai ef a'u hysgrifennodd yn y llyfr. Penri yw'r unig un a lanwodd bob un o swyddi cenedlaethol UCAC: trysorydd am ail hanner y pum degau, ysgrifennydd cyffredinol am ail hanner y chwe degau, llywyddiaeth yr Undeb ac ymddiriedolwr.

Hyd yn oed ym 1952, datgelai'r cofnodion sut y gwasgai UCAC ar awdurdodau addysg i wella eu darpariaeth Gymraeg. 'Roedd Sir Gâr newydd ddileu rheol a fynnai fod y Gymraeg yn amod dal swydd fel athro cynradd yn y sir, a daeth dan lach UCAC. Galwai'r Undeb hefyd y flwyddyn honno ar nifer o siroedd i benodi trefnyddion iaith ar gyfer y Gymraeg.

Gunston Jones, yntau'n gyn lywydd cenedlaethol ac yn awr yn ymddiriedolwr UCAC, a ddarllenodd rannau o ysgrif nodedig V Hampson Jones ar Gwyn Daniel dan y teitl "Early Days in UCAC". Datgelai'r ysgrif sut yr aeth 'criw ifanc Caerdydd' ati i greu'r sefydliad newydd Cymreig, UCAC.



*Cip ar rai o gynulleidfa dathlu hanner can mlwyddiant UCAC yn Nhŷ'r Cymry. Cefndir: Eic Davies, Gwyn M Daniel, Victor H Jones, (tri o sylfaenwyr UCAC). Rhes flaen: E Gunston Jones, Nia Royles, Ethni Jones (y ddwy olaf yn ferched Gwyn M Daniel). Rhes ôl: Michael Jones, Elin Royles, Garmon Jones.*

'Roedd Gunston ei hun ym merw'r bywiogrwydd hwnnw yng Nghaerdydd ac yn Nhŷ'r Cymry yn y tri degau, ac yn ei fodd dihafal raenus ychwanegodd o'i brofiad at naws a chynnwys y darlleniad.

Cadeiriwyd gan Iorwerth Morgan a geisiodd atgoffa'r cynulliad o bwysigrwydd sefydlu'r Undeb yn y cyfnod hwnnw. Cyn pen blwyddyn 'roedd UCAC yn dechrau'r frwydr am ysgolion cynradd Cymraeg, ymhlith llawer o bethau eraill. Dechreuodd yr Ysgol Gymraeg Fore Sadwrn yn Nhŷ'r Cymry, (yn yr union stafell lle 'roedd y dathliad hwn), a'i chynnal yno yn gyson dros dair blynedd o'r rhyfel. Plant honno, gan mwyaf, a ddaeth yn blant cyntaf Ysgol Gymraeg Caerdydd. Gwyn M Daniel Ysgrifennydd UCAC, oedd ysgrifennydd Ysgol Tŷ'r Cymry ac Ymgyrch Ysgol Gymraeg Caerdydd.

O Swyddfa UCAC yn Nhŷ'r Cymry, meddai IM, yr anfonid cenhadon allan i'r cyffiniau a'r cymoedd i annog grwpiau o rieni bwyso am addysg trwy'r Gymraeg i'w plant. Dangosai dogfennau gwreiddiol yn Nhŷ'r Cymry arweiniad diymwad yr Undeb yn y frwydr dros ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Morgannwg a Gwent, ac amheuai IM a fyddai'r mudiad ysgolion Cymraeg wedi llwyddo heb ymwthiad UCAC.


Rhoddwyd cymeradwyaeth fawr i Emyr Hywel pan gododd fel llywydd cenedlaethol UCAC heddiw. Er pwysiced fu cyfraniad UCAC yn y gorffennol, nid llai ei gyfrifoldeb heddiw, meddai. Os wynebodd yr Undeb ddifrawder tuag at y Gymraeg yn Sir Gâr ym 1952, yn ôl y cofnodion a ddarllenwyd, wynebai heddiw beryglon mwy yn Nyfed, meddai'r llywydd. Credai y gallai fod galw yn Nyfed am ymgyrch dros ysgolion penodedig Cymraeg fel y frwydr a ddechrewyd gan UCAC yn y pedwar degau ym Morgannwg.

Gyda'r lluniaeth digonol a ddarparwyd, cafodd y cynulliad gyfle i ddarllen ugeiniau o ddogfennau gwreiddiol yr Undeb. Yn eu plith 'roedd detholiad o lythyron Gwyn M Daniel, V Hampson Jones, D J Williams Abergwaun, J J Evans Tŷ Ddewi, J Gwyn Griffiths, Saunders Lewis, Tom Parry, Ifan ab Owen Edwards, D Gwenallt Jones, Gwenan Jones, Jac L Williams a dwsinau eraill. 'Roedd yn yr arddangosfa, hefyd, ddogfennau megis Llyfr Cofrestr a "Llyfr Cofnodion a Nodiadau" Ysgol Fore Sadwrn Tŷ'r Cymry – y gyntaf, efallai, (gan gofio am Ysgol yr Urdd yn Aberystwyth), o'r holl ysgolion meithrin Cymraeg yn yr ardaloedd Seisnigedig. Honno a dyfodd yn Ysgol Gymraeg Bryntaf Caerdydd, cynsail yr ysgolion cynradd Cymraeg presennol yn y ddinas.

Ymddengys nad dechrau undeb athrawon i Gymru oedd unig gyfraniad sylfaenwyr UCAC, hyd yn oed ym mlynyddoedd blin y rhyfel. Pery'r frwydr.


Pery'r dathlu, hefyd, o leiaf hyd at Gynhadledd Flynyddol yr Undeb yn Nhŷ Dyffryn, De Morgannwg, wythnos gyntaf Ebrill, 1991.

**IM**



## CROESAIR AP LEWSYN Rhif 107 — Chwefror 1991

AR DRAWS:

7. Mae'n abl i ngorfodi i ddangos iddo sut mae digroeni cwningen. (5)
8. Mae'n wahanol i bawb arall. (9)
10. Yr wyt, syr, yn chwarae cast twyllodrus. (6)
11. Hyfryd yw gweld rhywbeth dychrynllyd yn troi yn serchol. (8)
12. Cyhoeddiad y darllenydd cyfryngol. (4'1,8)
14. Trigfan y John Hughes a gyfansoddodd "Cwm Rhondda". (8,7)
15.  (JP) (6)
19. Wedi symud o Lanelli a phrofi camosodiad. (4,1'1,2)
20. Mae'r ceirw bach i'w gweld yn wyllt yn y drych, o'i chwilio yn fanwl. (6)
21. Cist rhyfedd ynghanol y coed gan y ceidwad. (9)
22. Un o ferched yr Urdd? (5)

I LAWR:

1. Rhoi arwyddocad yn fuan i ddynodi grwpiau o bethau cyffelyb. (9)
2. Man cyfleus i ollwng bachyn i'r dŵr. (6)
3. Mae wyth yn dweud hyn yn gryno. (2,6,2,5)
4. Elwodd. (6,7)
5. Hen grefft amaethyddol a ddisodlwyd gan y belar. (6)
6. Powdwr. (5)
9. Mae'n dda cael gwared ohoni! (5,3,1'1,3)
13. Mwy ciaidd na chur calon – onid-e? (9)
16. Treisiad o'ch blaen, yn cyfarch. (6)
17. Yn ddideimlad megis yr heth. (6)
18. Y hi a hi. (2,3)

### CYSTADLEUAETH RHIF 107

Tocyn Llyfr Cymraeg £5 a gynigir eto. Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair a threfnwch iddo gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Chwefror 18fed, os gwelwch yn dda.



Datrysiad Rhif 106 – Ionawr 1991

### CYSTADLEUAETH RHIF 106

Derbyniwyd pedair-ymgais-ar-bymtheg a phob un ohonynt yn gywir. Dyna ddechrau da i 1991! Yr enw a dynnwyd ar hap o'r pentwr oedd Robin D N Bateman, 96 Pendwyallt, Yr Eglwysnewydd, ac felly y fe fydd yn derbyn y tocyn llyfr y tro hwn.

Enwau'r deunaw cywir ond anlwcus yw: Margaret Richards, Y Bontfaen; Elen H Lewis, Radur; Iwan Jones, Llanisien; Margaret Jones, Cyncoed; Gwenda Hopkins, Llanisien; John G Breese, Glanyrafon; Ann M Jones, Gwenfô; Carys Humphreys, Bangor; Delyth Pollard, Radur; Haydn Thomas, Llanisien; Huana Simpson, Y Bontfaen; Marged Davies, Llandaf; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Morfudd Davies, Aberaeron; Dilys Gunston Jones, Cyncoed; N Mathias, Castellnewydd Emlyn; Heledd Hall, Treganna; Arwel Roberts, Taliesin, Powys.

# Capel Bethel Penarth

LLONGYFARCHIADAU i Andrew mab Brian a Janet Williams. Gwyddom eisoes am ei ddoniau cerddorol a'i barodrwydd wrth gytuno i'n diddanu yn y Capel ac yng Nghymdeithas Gymraeg Dinas Powys. Yn awr daeth llwyddiant academaidd i'w ran wrth iddo gael ei dderbyn i Goleg y Santes Catherine, Rhydychen. Pob Bendith iti Andrew wrth baratoi am newid byd.

Nos Sadwrn Ionawr 12 daeth cynulleidfa gref draw i Fethel i wrando ar ddoniau pobl ifanc y capel. Dyna oedd cyfraniad yr ifanc tuag at y gost enfawr o adnewyddu'r adeilad. Trefnwyd y noson gan Ceri Jones a chyflwynwyd y perfformwyr gan y gweinidog Y Parch Meurwyn Williams. Jeremy Williams, myfyriwr yng Ngholeg Sant Ioan Caergrawnt, oedd y prif unawdydd ac fe'n swynwyd gan berffeithrwydd ei ddatganiadau. Hyfryd oedd clywed Catrin Jones yn canu'r delyn mor bersain a Nia Lloyd, Non Gwilym, Sian Williams ac Andrew Williams yn canu a rhoi datganiadau offerynnol deniadol dros ben. Testun balchder yw'r ffaith fod y bobl ifanc i gyd yn aelodau yma ym Methel. Rhoddwyd croeso mawr hefyd i grŵp o gantorion ac offerynwyr o Ysgol Glantaf dan gyfarwyddyd Alun Guy ac i Catrin Rhys fel anawdydd. Cyfuniad rhyfeddol o ddoniau'r ifanc! A noson i'w chofio gan bawb a fu yno.


**DINESYDD**

***PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH***

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn Mawrth
**14-02-91**
14,400 o ddarllenwyr



*Bryan Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin, David Meredith, a John Hefin, Pennaeth Ffilm Cymru.*

# Ffilm Cymru yn Cyflwyno Siec

**BU O.M., ffilm gyntaf Ffilm Cymru, yn llwyddiant nid yn unig ar y sgrin ond hefyd yn ariannol a chyflwynodd John Hefin, Pennaeth Ffilm Cymru siec o £4,200 i Bryan Jones, Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin.**

Dymuniad Ffilm Cymru o'r cychwyn oedd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin elwa o daith O.M. o gwmpas y wlad. Mewn cydweithrediad â'r Mudiad yn lleol fe drefnwyd dangos O.M. yn Y Bala, Bangor, Yr Wyddgrug, Harlech, Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd a Llanfair ym Muallt. Canlyniad y dangosiadau hyn oedd elw o £4,200 i'r Mudiad Ysgolion Meithrin.


SCIENTIA INGENIUM ARTES

## SWYDD YSGRIFENYDDOL

≈≈≈

Gwahoddir ceisiadau am swydd ysgrifenyddol yng Nghofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays.

Cyflog £8,510 – £9,862 y flwyddyn.
Manylion oddi wrth Gareth Wyn Evans – Caerdydd 382656


# "SDWNSH"

**HEIDIODD DROS 1,300 o blant ysgolion cynradd led-led Cymru i Studio Barcud yng Nghaernarfon yr wythnos diwethaf i serennu mewn cyfres 31 o raglenni o'r enw "SDWNSH!" a gyflwynir gan ddau gymeriad o'r enw Sleim a Sdwnshcyn.**

Trefnwyd dros 200 o ddisgyblion i ymweld â'r studio pob dydd. Trowyd y studio yn far-byrger enfawr a gwisgwyd yr holl staff technegol a chynhyrchu mewn dillad a gyflenwyd gan gwmni 'Burger King'. Lleolwyd dyn 'Lego' anferth yng nghanol y set ac, yn ogystal, 'roedd fan hufen-iâ liwgar!

Darlledir y gyfres fel rhan o Slot 23 ar S4C rhwng 4.30pm a 5.30pm. o ddydd Mercher 2ail o Ionawr ymlaen. Cynhyrchwyd y gyfres gan gwmni Dime Goch o Benrhyndeudraeth.

